



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Barnwyr 15: 1-20



- 1 Roedd Samson wedi priodi merch o Timna, un o'r Philistiaid. Ond wedi'r briodas roedd Samson wedi gwylltio'n lân ac aeth adre at ei rieni. Dyma'i wraig yn cael ei rhoi i'r un oedd wedi bod yn was priodas iddo. Beth amser wedyn, adeg y cynhaeaf gwenith, dyma Samson yn mynd i weld ei wraig ac aeth â myn gafr ifanc yn anrheg iddi. Roedd e eisiau cysgu gyda hi ond wnaeth ei thad ddim gadael iddo. "Ro'n i'n meddwl dy fod ti'n ei chasáu hi go iawn, felly dyma fi'n ei rhoi hi i dy was priodas. Mae ei chwaer fach hyd yn oed yn ddelach na hi. Pam wnei di ddim ei chymryd hi yn ei lle?" A dyma Samson yn ymateb, "Mae gen i reswm digon teg i daro'r Philistiaid y tro yma!"



-
- 2 Felly dyma Samson yn mynd ac yn dal tri chant o siacaliaid, eu rhwymo nhw'n barau wrth eu cynffonau, a rhwymo fflaglau rhwng eu cynffonau. Yna taniodd y fflaglau a gollwng y siacaliaid yn rhydd i ganol caeau ŷd y Philistiaid.



-
- 3 Llosgodd y cwbl — yr ŷd oedd heb ei dorri a'r ysgubau oedd wedi eu casglu, a hyd yn oed y gwinllannoedd a'r caeau o goed olewydd.




-
- 4 "Pwy wnaeth hyn?" meddai'r Philistiaid. A dyma rhywun yn ateb, "Samson, am fod ei dad-yng-nghyfraith, sy'n byw yn Timna, wedi cymryd ei wraig a'i rhoi i'w was priodas." Felly dyma'r Philistiaid yn mynd i Timna a dal gwraig Samson a'i thad a'i llosgi nhw i farwolaeth.




-
- 5 Pan glywodd Samson dwedodd, "Dw i'n mynd i ddial arnoch chi am wneud hyn! Wna i ddim stopio nes bydda i wedi talu'n ôl i chi!" A dyma fe'n ymosod arny'n nhw a'i hacio nhw'n ddarnau.



-
- 6 Yna aeth i ffwrdd, ac aros mewn ogof wrth Graig Etam.



-
- 7 Yna dyma'r Philistiaid yn mynd i ymosod ar Jwda. Roedden nhw ar wasgar drwy ardal Lechi.



-
- 8 A dyma arweinwyr Jwda yn gofyn i'r Philistiaid, "Pam ydych chi'n ymosod arnon ni?" Dŷn ni eisiau cymryd Samson yn garcharor," medden nhw, "a thalu'r pwyth yn ôl iddo am beth wnaeth e i ni."



-
- 9 Felly dyma 3,000 o ddyinion Jwda yn mynd i lawr i'r ogof wrth Graig Etam, a dweud wrth Samson, "Wyt ti ddim yn sylweddoli mai'r Philistiaid sy'n ein rheoli ni? Beth wyt ti'n feddwl wyt ti'n wneud?" "Dim ond talu'r pwyth yn ôl wnes i. Gwneud iddyn nhw beth wnaethon nhw i mi," meddai Samson.



-
- 10 A dyma ddyinion Jwda yn dweud wrtho, "Dŷn ni wedi dod yma i dy ddal di a dy roi di i'r Philistiaid yn garcharor." "Wnewch chi addo i mi na wnewch chi fy lladd i eich hunain?" meddai Samson. A dyma nhw'n dweud, "Dŷn ni'n addo. Wnawn ni ddim ond dy rwymo di a dy roi di'n garcharor iddyn nhw." Felly dyma nhw'n ei rwymo gyda dwy raff newydd.




-
- 11 Pan gyrhaeddodd Lechi, dyma'r Philistiaid yn dechrau gweiddi'n uchel wrth fynd draw at Samson. A dyma Ysbryd yr ARGLWYDD yn dod arno'n rymus, a dyma'r rhaffau oedd yn rhwymo'i freichiau yn torri fel brethyn wedi llosgi!



-
- 12 Dyma fe'n gweld asgwrn gêm asyn oedd heb sychu. Gafaelodd yn yr asgwrn a lladd mil o ddynton gydag e! A dyma Samson yn dweud, "Gydag asgwrn gêm asyn gadewais nhw'n domenni! Gydag asgwrn gêm asyn mil o filwyr leddais i!" Yna tafodd Samson yr asgwrn ar lawr, a galwodd y lle yn Ramath-lechi (sef "Bryn yr Asgwrn Gêm").



-
- 13 Roedd Samson yn ofnadwy o sychedig a dyma fe'n galw ar yr ARGLWYDD, a dyma Duw yn hollti'r basn sydd yn y graig yn Lechi, a dyma ddŵr yn pistyllio allan. Pan yfodd Samson y dŵr, dyma fe'n dod ato'i hun. Buodd Samson yn arwain Israel am ugain mlynedd pan oedd y Philistiaid yn rheoli'r wlad.



-
- 14 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
